OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 1854 (Cy.204)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*16 Gorffennaf 2003*
Yn dod i rym - -	*1 Medi 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymgynghori, yn unol ag adran 3(7) o Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1997(**1**), â'r cyrff hynny y mae'n ymddangos iddo eu bod yn briodol ac â chynrychiolyddion ysgolion sy'n darparu lleoedd a gynorthwyir o dan adran 2(1) o'r Ddeddf honno.

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 3(1), (2), (5) a (9) o'r Ddeddf honno ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 1 Medi 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ysgol sy'n dechrau ar 1 Medi 2003 neu wedyn.

Diwygio Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) 1997

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) 1997(**3**)fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 10(4) a (6), yn lle "£1,465" ym mhob man lle y'i gwelir, rhoddir "£1,500".

(3) Ym mharagraff 1 o Atodlen 2, yn lle "£11,368" rhoddir "£11,626".

(4) Yn lle'r tabl sy'n dilyn paragraff 2(1) o'r Atodlen honno, rhoddir y tabl canlynol —

(**1**) 1997 p.59. Diwygiwyd adran 3 gan adran 130 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31).
(**2**) Trosglwyddwyd Swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1997/1968, a ddiwygiwyd gan O.S. 1998/1726, O.S. 1998/1966, O.S. 1999/1504, O.S. 2000/1938 (Cy.136), O.S. 2001/2680 (Cy.221), ac O.S. 2002/1879 (Cy.188).